**EITEM AR YR AGENDA: 10**

# AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

**18fed Hydref 2010**

**GWERTHUSO SWYDDI**

**Adroddiad gan Ruth Simmons, Prif Swyddog Tân Cynorthwyol**

## Diben yr Adroddiad

1 Diben yr adroddiad yw hysbysu'r Aelodau o ganlyniadau a chasgliadau'r prosiect gwerthuso swyddi. Mae'r broses wedi ymwneud â holl staff yr Awdurdod Tân ac Achub sy'n gweithio ar amodau Llyfr Gwyrdd y Cyd Gyngor Cenedlaethol, sy'n cael eu hadnabod fel gweithwyr cefnogi fel arfer. Mae'r grŵp yn cynnwys rolau diogelwch tân cymunedol fel Ymarferwyr a'r tîm Cefnogi Diogelwch yn y Cartref.

## Cyflwyniad

2 Yn 1997, roedd Cytundeb Statws Sengl Cenedlaethol yn datgan fod rhaid i'r awdurdodau lleol adolygu eu trefniadau cyflogi lleol er mwyn cyflawni cyflogaeth statws sengl. Roedd hyn yn cynnwys sefydlu strwythurau graddio teg anwahaniaethol ar lefel leol er mwyn integreiddio cyn weithwyr APT&C a Gweithwyr Llaw. Dynodwyd mai'r ffordd gorau i gyflawni hyn oedd drwy werthuso swyddi. Fe ymgymerodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru ag adolygiad o'r math yma yn 2001.

3 Yn unol ag arfer gorau, fe ymgymerodd y Gwasanaeth Archwiliad Cyflog Cyfartal yn 2007. Fel rhan o argymhellion cynnar yr Archwiliad, arweiniwyd y Gwasanaeth gan ei ymgynghorwyr cyfreithiol i ail werthuso'r broses werthuso swyddi a gweithredu strwythur cyflog a graddio newydd yn seiliedig ar bwyntiau Graddfa Cyflog y Cyd Gyngor Cenedlaethol. Cynghorwyd y Gwasanaeth y dylai'r swyddi a ariannir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru gynnwys y cynllun gwerthuso swyddi er mwyn sicrhau tegwch a chysondeb i holl weithwyr y Llyfr Gwyrdd.

## Gwybodaeth

4 I gynorthwyo'r broses werthuso swyddi, fe sicrhaodd Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru Gytundeb ar y Cyd gyda'r cyrff cynrychiadol gan ymgorffori Gwerthuso Swyddi a Pholisi Cyflog, Strwythur Cyflog a Graddio a dyddiad gweithredu yn effeithiol o 1af Ebrill 2009. Roedd y cytundeb yn cynnwys darpariaeth amddiffyn cyflog o dair blynedd o'r dyddiad gweithredu i'r unigolion sydd yn y swyddi sy'n cael eu hisraddio. Ym mis Gorffennaf 2010, fe ofynnodd yr Undebau i'w haelodau bleidleisio ac wedi derbyn canlyniad cadarnhaol o'r bleidlais, mae'r Undebau wedi arsylwi'r broses werthuso a chymryd rhan mewn gwrandawiadau apêl dilynol.

5 Cyfanswm nifer y gweithwyr ar amodau'r Llyfr Gwyrdd y gwerthuswyd eu swyddi yw 144. Mae'r nifer hwn yn cynnwys 88 o fenywod a 56 o wrywod. Gwerthuswyd 60 o swyddi. Meincnodwyd ugain o swyddi.

## Canlyniadau

6 Mae effaith y broses werthuso swyddi ar weithwyr yn ôl rhyw, fel a ganlyn:

- cyfanswm y nifer o weithwyr y bydd eu swyddi yn **gostwng mewn graddfa** yw 11, 3 yn fenywod a 8 gwryw.
- cyfansoddiad rhyw'r gweithwyr mae eu swyddi yn **aros ar yr un raddfa** yw 45 o fenywod a 26 o wrywod.
- mae'r gweithwyr sy'n **codi** mewn graddfa yn cynnwys 40 o fenywod a 22 o wrywod.
- cyfanswm y nifer o Weithwyr fydd yn gostwng mewn graddfa yw 11 (7.63%).
- cyfanswm y nifer o Weithwyr sy'n aros ar yr un raddfa yw 71 (49.30%).
- cyfanswm y nifer o Weithwyr fydd yn codi mewn graddfa yw 62 (43.05%).

- gwerthuswyd naw swydd sy'n cael eu hariannu gan Lywodraeth y Cynulliad neu ar y cyd gyda Heddlu Gogledd Cymru.

## Casgliad

7 Yn ei gyfarfod ar 16eg o Fehefin 2008, hysbyswyd yr Awdurdod fod y prosiect gwerthuso swyddi ar gychwyn. Hysbyswyd y Panel Gweithredol ar 16eg o Dachwedd 2009 fod darpariaeth ychwanegol o £169,125 wedi ei neilltuo i gwrdd â'r cynyddiadau rhagfynegwyd ac ôl-daliadau. Yn dilyn gorffen y broses, gellir cadarnhau fod digon o arian yn y ddarpariaeth i gwrdd â'r ymrwymiadau presennol.

## Argymhelliad

8 Gofynni'r i Aelodau:

a. gydnabod y broses helaeth ymgymerwyd â hi a'r canlyniad llwyddiannus; a
b. nodi goblygiadau ariannol yr ymarfer, ar gyfer y flwyddyn bresennol a'r dyfodol.